

Capel Undodaidd, profiad 'ar fin marw', a stori hynod un dyn

Mae'n siwr fod nifer fawr ohonom ni yn meddwl am Undodiaeth fel crefydd bragmataidd ac ymarferol iawn. Nid rhywbeth ffundamentaltaidd ac emosiynol mohoni o gwbl, ond crefydd resymegol iawn.

Mae damcaniaeth yr Undodwr, Charles Darwin, ar esblygiad yn enghraifft dda o sut y mae'r meddwl Undodaidd yn gweithio, mae'n debyg.

Ond mae'r rhifyn yma o'r Ymfynnydd yn cynnwys erthygl sydd, efallai, yn herio rhai o'r credoau syflaenol sydd ynghlwm ag Undodiaeth.



Gareth Rowlands tu allan i Gapel y Groes

Profiad 'ar fin marw'

Mae'r stori (sy'n ymddangos yn llawn ar y tudalennau canol) yn un hynod, sy'n ymwneud gyda pherson sy'n honni ei fod e' wedi cael rhyw fath o brofiad 'ar fin marw' (neu Near Death Experience, NDE).

Ymhellach, mae'r dyn – Gareth Rowlands o Gilfachreda, ger Cei Newydd – yn dweud fod Capel Undodaidd Capel y Groes, Llanwnnen, wedi bod yn ganolbwynt i'r profiad yma.

Cyn y profiad roedd yn dioddef o salwch difrifol oedd wedi ei blagio ers peth amser, ond bellach, mae'n iach a'i ffydd wedi cryfhau o ganlyniad i'r hyn mae'n dweud iddo brofi.

Breuddwyd neu realiti?

Mae'r ffenomen o brofiad ar fin marw yn un o'r pethau hynny sy'n destun dadlau hyd yn oed i wyddonwyr sy'n arbenigo yn y maes. Tra fod rhai yn dweud mai rhyw fath o freuddwyd yw'r cyfan, mae 'na eraill yn dadlau bod rhywbeth real iawn yn digwydd yn y profiadau yma. Ac mae rhai hyd yn oed yn mynd mor bell a honni fod hyn yn dangos fod bywyd wedi marwolaeth.

Beth bynnag yw eich barn chi ar hyn, mae'r hanes sy'n cael ei adrodd gan y Parchedig Gen Llwyd ar dudalennau canol y cylchgrawn yma yn rhyfeddol, ac yn gwneud darllen difyr iawn – hyd yn oed i'r anghredinwr pennaf.

Heb os, mae Gareth Rowlands yn gwbl grediniol ei fod e' wedi cael profiad hynod wnaeth wella salwch a oedd yn mynd i'w ladd. Diolch iddo am ganiatau i'r Ymfynnydd adrodd y stori am ei honiadau - mae'r hanes yn wirioneddol werth ei ddarllen.

Atgofion am Archdderwydd â hen gapel Undodaidd

Yn yr 1950au bu'r cyn-archdderwydd, Wil Ifan, yn ymwelydd cyson â Rhydyparc – ar y ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Gwnaeth ei ymweliadau â Chapel Undodaidd Rhydyparc, argraff fawr arno. Ar y pryd, merch ddeg oed oedd **Lon Owen**, sydd bellach yn byw yn Llanymddyfri. Yma mae'n hel atgofion am y cyfnod euraidd hwnnw ac ymweliadau'r llenor, y bardd a'r gweinidog gyda'i chartref a Chapely 'Sosiniaid.'



Ganwyd Wil Ifan, neu William Evans yn Nhy'r Ysgol, Cwmbach, Llanwinio, Sir Gaerfyrddin yn 1883. Fe oedd y chweched o naw o blant Daniel [Dan] Evans, Ysgolfeistr Cwmbach a'i wraig Mary, merch Rees ac Anna Davies, Siop y Red Lion, Cwmbach.

Treuliodd Wil Ifan ei blentyndod yn Vale View, Cwmbach a letygarn, Blaenwaun a magodd deimladau hoffus a hiraethus am fro ei febyd.

Addysgwyd ef yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor a Choleg Manchester, Rhydychen cyn iddo ddod yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Nolgellau. Yn 1909 symudodd i Benybont-ar-Ogwr ac ar wahan i gyfnod yng Nghaerdydd treuliodd weddill ei fywyd ym Mhenybont.

Ar hyd ei oes arferai Wil Ifan fynd yn ôl, yn rheolaidd, ar ei wyliau i ardal ei blentyndod cynnar; yn gyntaf at deulu Hughes, ar fferm Hafod y Pwll yng Nghwm Rhyd, ychydig i'r gorllewin o bentref Blaenwaun. Yn Hafod y Pwll daeth ef a'r gwas Arnold John, oedd yr un oedran ag ef, yn gyfeillion mawr.

Arweiniodd y cyfeillgarwch yn ddiweddarach at ymweliadau blynyddol gan Wil Ifan a'i deulu at Arnold John a'i deulu ar fferm Rhydyparc sy'n ffinio â fferm Hafod y Pwll.

Un o hynodion Cwm Rhyd oedd bodolaeth Capel Undodaidd o'r un enw a'r fferm gyfagos, sef Rhydyparc.

Codwyd y Capel yn 1787 yn dilyn ymddiswyddiad grwp o addolwyr o eglwys Annibynol Glandwr, sydd tua dwy filltir o Gwm Rhyd dros y ffin yn Sir Benfro. Sefydlwyd achos newydd yn Rhydyparc a datblygodd yr eglwys yno yn lled gyflym i fod yn un Undodaidd.

Fe'm magwyd i ar fferm Rhydyparc yn ferch i Cyril ac Eppie Isaac ac wyres i Arnold a Catherine John, ac yn y pumdegau cynnar edrychwn ymlaen at ymweliadau Wil Ifan â'm cartref. Roedd gan Wil Ifan ddawn arbennig i wneud pobl, a hyd yn oed plentyn deng mlwydd oed, i deimlo'n bwysig yn ei gwmni.

Roedd pulpud y Capel ar ei draed y pryd hynny a mynnai Wil Ifan fy mod i'n dringo iddo a chanu emyn, cyn i'r ddau ohonom fynd ati i archwilio ychydig o du fewn yr adeilad ac yna allan â ni i'r fynwent i grwydro ymysg y cerrig beddau.

Mae'n amlwg fod y Capel yn atynfa i blant oherwydd rwy'n cofio fel y mynnai fy ffrindiau ar ddydd fy mharti penblywdd ymweld â'r lle a chynnal gwasanaeth yno! Does dim llawer o amser ers i'm

ffrind Mary o Landwr bryd hynny - ond o Lanbed erbyn hyn - fy atgoffa o'n anturiaethau 's'lawer dydd yng Nghapel Rhydyparc!

Ond i ddod yn ôl at gysylltiad Wil Ifan â'r Capel; ei ymweliad yn ystod Haf 1955 yw'r unig un, hyd y gwn i, a ddisgrifiwyd ganddo yn gyhoeddus. Mewn sgwrs radio yn yr un flwyddyn y gwnaeth hynny ac fe gyhoeddwyd y sgwrs yn rhifyn 1955 o "Llafar" a olygwyd gan Aneirin Talfan Davies.

Ar y tren y teithiodd Wil Ifan o Benybont ar Ogwr i Hen Dŷ Gwyn ar Dâf lle roedd fy nhad yn aros amdano mewn car. Ar ol cael bobo "ice cream", i ffwrdd â nhw am y brynau a Wil Ifan yn arswydo o weld mai dim ond un o'i ddwylo a ddefnyddiai 'nhad i lywio'r car gan fod "ice cream" yn y llall!

Aethant fel mellten drwy ddau bentref bach a chafodd Wil Ifan ddim amser i holi ynghylch eu henwau rhyfedd sef, Cefen Brale a Phlas y Bwci cyn i'r car gyrraedd pen y daith yn Rhydyparc!

Neu fel y dywedodd Wil Ifan "Ond wele ni yn fuan iawn ar glos y ffarm a theulu cyfan i'n croesawu."

Ar ôl cael pryd o fwyd daeth yr alwad i mi gyd-gerdded ag ef tua'r Capel ond gwell gadael i Wil Ifan ddweud yr hanes

..... "Ar ôl treulio cryn amser o gwmpas bord, a'i haml drugareddau mor flasus â'r siarad o'i chwmpas, manteisiwyd ar y diwedydd melyn i roi tro am hen gapel a mynwent o fewn dau neu dri lled cae i'r ffarm. 'Sosiniaid' yw'r enw ar Undodwyr yn yr ardal yma, a'u capel hwy, y Sosiniaid, yw hwn yn Rhydyparc.

Yn anffodus iawn er nad yw'r adeilad yn hen, y mae ei gynulleidfa wedi ffoi ac yntau wedi ei adael yn

ddiymgeledd, a'r to ar fynd iddo, a'i bwlpudd a'i seddau yn sarn. Teimlwn yn wir ofidus oherwydd hawdd gweld iddo unwaith fod yn addoldy glan a phert. Fel y gallech ddisgwyl y mae rhyw ymwelwyr direidus wedi dechrau sgriblan eu difyrwch ar wynder pren y seti, ond hawdd gweld bod rhai pethau wedi'u hysgrifennu gan yr hen wrandawyr defosiynol eu hunain – o bosib yn ystod y bregeth – i'w cadw ar ddihun efallai – a chopiais enw llawer gweinidog, dyddiad ei Sul a thestun ei bregeth.

Yn y fynwent gerllaw yr oedd y meini druain, yn cuddio'u hwynebau tu ôl i dyfiant gwyllt o lwyni bocsa a drain a mieri; ac yr oedd yn dda i mi fod merch fach o'r ysgol gyda mi a'i dwylo parod a'i llygaid ifanc i'm helpu i ddarllen cenadwri'r cerrig ac i godi ambell englyn. Sylwch ar bwyslais Undodaidd y pennill hwn ar gywirdeb buchedd:

Un a fo'n iawn ei fywyd – a gedwir
Yn gadarn ei wynfyd;
Ni chil, ni fyn ochelyd
Na dydd barn, na diwedd byd.

A'r englyn i Mary, gwraig Phillip Jones, Rhydyparc:

Ei rhodiad fu'n anrhydedd :- yn y byd
Cai barch am ei rhinwedd;
Enw da hon, a'i diwedd
O go'r byd ni ddyga'r bedd.

Ar un garreg gwelwn "Nod Cyfrin" Gorsedd y Beirdd a rhan o'r ysgrifen a'i llythrennau o A Bi Ec Coelbren y Beirdd. Er bod y rhan arall yn ein Ha Bi Ec ni feidrolion, yr oedd y brawddegau'n ffug hynafol – yn dechrau fel hyn:- 'Wyf gof taw isod y beddwyd adfeilion dynsawdd o'r enw Morris.' 'Hylo,' meddai gŵr Ffynnonlas a'n cyfarchodd yn nes ymlaen, 'fe fuoch yn gweld y capel?.' 'Do ac yn rhodio ymysg y beddau hefyd i gopïo ambell englyn.' 'Welsoch chi hon?' ['Hon' gyda llaw, ac nid 'hwn' yw 'englyn' y ffordd yma] ac fe adroddodd englyn i blentyn bach. Ac yn wir mae'n werth ei ail adrodd yma:-

Ym mhurdeb dyddiau mebyd - heb fai oedd;
Heb feddwl brycheulyd;
I dir bedd o ddwndwr byd
A'i ddu ing cadd ddihengid."

Yn rhyfeddol, mae'r nodiadau gymerwyd gan y "ferch fach o'r ysgol" wedi goroesi! Mae'n syndod gymaint o'r iaith Saesneg ddefnyddiwyd ar y cerrig beddau ym mynwent Rhydyparc yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn naturiol, penillion Cymraeg a ddefnyddiwyd i dalu teyrnged i'r ymadawedigion ond am ryw reswm, yn Saesneg y cofnodwyd cyfeiriad a dyddiad marw rhai o'r claddedigion.

Dyma rai enghreifftau:

JAMES PHILLIPS
Of Blaentrafle
In the parish of Llanwinio
Who died July 4 1859
Aged 88 years

Un a fo'n iawn ei fywyd – a gedwir
Yn gadarn ei wynfyd;
Ni chil ni fyn ochelyd
Na dydd barn na diwedd byd.

MARY WIFE OF JAMES PHILLIPS
Died Aug 20 1848
Age 73

Duw o'i gariad sy'n rhoi bywyd
Duw o'i gariad sy'n ei gymryd
Duw i'r duwiol rydd o'i gariad
Wynfyd pur nol atgyfodiad.

Mynwent Rhydyparc
Capel yr Undodiaid

REES PHILLIPS
BLAENTRAFLE
Nov 12v 1883 age 84

Also his wife **AMY**
Died Dec 25 1884 age 76

ESTHER
merch Rees a Amy
May 14 1850 6 oed

Ym mhurdeb dyddiau ei mhebyd –
heb fai
Heb feddwl brycheulyd
I dy'r bedd o ddwndwr byd
A'r ddu ing ca'dd ddiengyd.

Y Corn Gwlad

CYLCHGRAWN BLYNYDDOL GORSEDD Y BEIRDD A'R EISTEDDFOD



Wil Ifan, yn ei gyfnod yn Archdderwydd

CAPEL Y FADFA

CYDYMDEIMLO

Fel aelodau yr ydym am estyn ein cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd â chysylltiad â'r capel sydd wedi colli perthnasau a ffrindiau yn ystod y misoedd diwethaf. Yr ydym yn meddwl amdanoch yn eich galar a'ch colled i gyd.

GWELLHAD BUAN

Gwellhad llwyr a buan i'r holl aelodau a ffrindiau'r achos sydd ddim wedi bod yn dda iawn eu hiechyd yn ystod y misoedd diwethaf.

LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i Carys Evans, Rhydsais, ar ennill y wobr gyntaf am ganu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llannerchaeron yn ddiweddar. Drwy ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth hon, mae Carys wedi ennill taith i'r teulu i safle Disney, Paris mis Mawrth nesaf. Daeth llwyddiant hefyd i holl blant yr ysgol gynradd leol wrth iddynt ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Cân Actol a bu llawer o bobl ifanc sydd â chysylltiad agos â'r capel yn llwyddiannus mewn sawl cystadleuaeth yn ystod yr wythnos hefyd.



SEDDI NEWYDD

Yn ddiweddar mae seddi coch newydd wedi cael eu prynu i fynd i'r festri fach wrth y capel ac mae rhai yn y festri fawr hefyd. Maen nhw'n edrych yn fendigedig.

EISTEDDFOD GADEIROL

Cynhaliwyd eisteddfod lewyrchus unwaith eto eleni er budd y capel yn Neuadd Goffa'r pentref, gyda chynulleidfya luosog wedi mynychu'r digwyddiad yn ystod y dydd. Enillydd y gadair a oedd yn rhoddedig gan y Parch Wyn Thomas oedd Beynon Phillips, Caerfyrddin ac fe enillwyd tlws yr ifanc a oedd yn rhoddedig gan Emlyn Jones, Gwylfa, gan Manon Ifan, Llangynnwr. Llywydd y dydd oedd Arthur Dafis, (Crug yr Eryr Uchaf gynt) Talybont. Cafwyd gan Arthur araith bwrpasol a rhodd hael tuag at gynnal yr Eisteddfod yn flynyddol. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud yr Eisteddfod yn un o safon unwaith eto eleni.

CWRDD PAWB YNGHYD

Cafwyd oedfa fendithiol i ddathlu Sul Pawb Ynghyd ar ddechrau mis Mehefin, pryd y cafodd y gweinidog Y Parch Wyn Thomas y pleser o fedyddio Fflur, sef merch fach Lyn a Catrin a chwaer Caio ac Iwan, Dwynant. Braff oedd gweld cynulleidfya dda wedi dod i'r oedfa a oedd yn cynnwys llawer o blant bach bywiog iawn. 'Perthyn' oedd testun yr anerchiad gan y gweinidog a chafwyd cyfle i rannu'r cymun yn ystod y cwrdd. Wrth yr organ oedd Siwsan Dafis.

GYMANFA GANU

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu'r enwad Undodaidd ar brynghawn dydd Sul ym mis Ebrill yng Nghapel Llwynrhydowen, pan gafodd y Parch Goronwy Evans y cyfle i groesawu Catrin Hughes (Tregaron gynt) Llanelli i arwain y gân ac Eirian Jones yn organyddes. Llywyddion y prynghawn a'r hwyr oedd Meinir Green, Capel Caeronnen a'r Cyngh Haydn Richards, Capel y Groes. Yn anfodus yr oedd Meinir Green yn methu bod yn bresennol oherwydd salwch, ond yr oedd wedi danfon gair i ddymuno yn dda i'r Gymanfa. Yn ystod oedfa'r plant yn y prynghawn roedd Ifan Evans, Rhydsais ar ran Ysgol Sul, Capel y Fadfa yn cyflwyno emyn, gyda'r gerddoriaeth o waith Heledd Llwyd

a'r geiriau o waith ei thad y Parch Cen Llwyd. Hyfryd oedd clywed y plant o wahanol gapeli yn cyflwyno'r emynau. Braff oedd cael presenoldeb y Parchedigion Cen Llwyd, Wyn Thomas ac Alun Wyn Dafis yn yr oedfaon. Rhwng y ddwy oedfa cafwyd te ysblynydd wedi ei baratoi gan ffrindiau o bwyllgor y Gymanfa Ganu yn y festri a chyfle i gael clonc ac i gymdeithasu yng nghwmni ffrindiau. Gwnaed y diolchiadau yn ystod oedfa'r hwyr gan y Parch Goronwy Evans.

CYMANFA BWNC

Cynhaliwyd Cymanfa Bwnc capeli ardal Bro Marles yng Nghapel y Fadfa ar ddydd Sul yn nechrau mis Mai. Y Parch Alun Wyn Dafis oedd y gŵr gwadd. Er bod dim cymaint yn bresennol ac arfer, cafwyd prynghawn hwylus iawn yn ei gwmi.

BRONDEIFI

Dathlu Gŵyl Dewi

Mynhawyd dwy arlwy flasu iawn yn y gwasanaeth arbennig yma gan i ni gael gwasanaeth wedi ei selio ar hanes Dewi Sant ac yna gwledd o gawl a bara brith a phice ar y maen.

Bu Guto Morgans a Tanya Morgans yn gyfrifol am gyhoeddi'r emynau gyda Tanya yn cyfeilio hefyd. Cafwyd darlenniadau addas sef Myfyrdod Gŵyl Ddewi, Buchedd Garmon a Myfyrdodau Mawrth gan Eryl Jones, Meinir Jones ac Arthur Roderick gyda gweddill y gwasanaeth yng ngofal Gareth Morgans. Gyda chymorth y dechnoleg fodern cyflwynodd hanesion diddorol am ein Nawddsant gan gynnwys nifer o ffeithiau nad oeddem yn ymwybodol ohonynt. Roedd yn amlwg wedi gwneud ymchwil manwl ar y we ac wedi selio ei anerchiad ar lyfr a ysgrifennwyd gan rifoedd yn ôl gan Rhigfarch. I ddiweddu cafwyd cwis a'r plant yn serenu ac roeddent yn smart iawn i gyd yn eu gwisgoedd Cymreig. Diolchwyd i Gareth am wasanaeth arbennig iawn ac i Delyth Jones a Heini Thomas (Pentrebach) am baratoi pryd blasus o fwyd.

Cydymdeimlo

Estynnwyd cydymdeimlad gyda theulu Brynmaen, Cwmann ar farwolaeth Mrs Evans, mam a mamgu annwyl i Charles, Maureen, Helen, Clive a hen famgu Heini a Bryn.

Llongyfarchiadau a Dymuniadau Da

Daeth llwyddiant i nifer dda o aelodau ers ymddangosiad y rhifyn diwethaf sef:

Steffanie Davies, sydd yn cynorthwyo Heini Thomas yn yr Ysgol Sul, ar gael ei phenodi i swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol;

Hywel Roderick ar ei gamp yn llwyddo i ddringo mynydd Kilimanjaro ac am ei ymdrech yn codi swm sylweddol iawn o arian at apel Nyrsys Macmillan;

Ioan Wyn Evans ar ei benodiad i Gyngor Cynulleidfya BBC Cymru – y corff sy'n arolygu perfformiad y BBC;

Megan Haf ar dderbyn gradd A seren ym mhynciau gwyddonol TGAU;

Meinir Jones, Hendai ar gael ei dyrchafu i swydd 'Sister' yn ysbyty Gorllewin Cymru, Caerfyrddin;

Heini Thomas, Deffrobani ar gael ei phenodi yn y Bennaeth Ysgol y Dderi;

Gwenda a Phillip, Heddle, Stryd Newydd ar ymddangos ymysg y teithwyr ar y trên ar raglen deledu 'Indian Hill Railway' ar BBC 4 yn Mis Mawrth;

Tegryn Jones ar ddechrau ei swydd newydd fel Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Sir Benfro.

Gwasanaeth Gwragedd Byd Eang

Cynhaliwyd y gwasanaeth eleni yng nghapel Bethel, Silian a

chymerwyd rhan ar ran Brondeifi gan Mrs Beti Evans, Mrs Sallie Jones, Mrs Gwenda Davies a Mrs Gwennie Douch.

Bedydd

Ar fore Sul y Mamau, y 14eg o Fawrth, roedd y gwasanaeth wedi ei selio yn amserol iawn ar y Fam. Roedd hwn hefyd yn wasanaeth cyflwyno Rhys Gethin, mab bach Llŷr a Rhian Williams a brawd Guto Emrys. Y rhieni bedydd oedd Dai Lewis a Nia Harri, ffrindiau'r teulu o Gaerdydd. I ategu at y gwasanaeth cafwyd datganiad hyfryd o 'Dim Ond Un' o waith Robert Arwyn gan Tanya Morgans gyda'i mam, Tanya Morgans yn cyfeilio iddi.

Gwasanaeth Ysgol Sul

Ar fore Sul 21ain o Fawrth cafwyd gwledd o hwyl yng nghwmni disgyblion yr Ysgol Sul wrth iddynt berfformio stori Arch Noa a chanu 'Bwrw Glaw yn Sobor Iawn' a 'Pwy wnaeth yr Enfys Hardd' a phawb o'r hynaf i'r lleiaf wedi mwynhau'r storïau am y 'Ddwy Chwaer Wahanol' a Carwyn Crintach a Heddwyn Hael'. Diolchodd y gweinidog yn gynnes iawn iddynt ac i'r rhai fu'n cynorthwyo ac yn enwedig i'r rhieni a Heini am hyfforddi.

Sul Pawb Ynghyd

Eleni eto daeth cynulleidfada dda i'r gwasanaeth blynyddol yma ac wrth fwrdd y cymun manteisiodd y Parch Goronwy Evans ar y cyfle i gofio am bawb na fedrai fod yn bresennol, nifer fawr ohonynt wedi danfon cyfarchion ac ymddiheuriadau. Cofiodd yn benodol am y rhai oedd yn sâl, rhai newydd dderbyn llawdrinaethau ac eraill yn derbyn triniaethau dros gyfnod o amser. Cofiwyd a danfonwyd dymuniadau da i'r teuluoedd a oedd yn gofidio am iechyd eu teuluoedd a chofiwyd yn arbennig am Gareth a Bridget James a'u baban bach a oedd yn yr ysbyty yng Nghaerdydd. Mynegwyd balchder o gael cwmni Mrs Phyllis Jones yn y gwasanaeth ar ôl cyfnod maith o anhwylder.

Gwasanaeth Teulu

Ar Sul yr 20fed o Ebrill cafwyd gwasanaeth cofiadwy iawn gan deuluoedd Glanhelen a Ffosyffin ar y thema 'Yr oeddw'n i yno' a chymerwyd rhan gan y rhai lleiaf sef Llewelyn, Gruffudd, Mali, Elen, Martha a Sion hyd at yr hynaf a phrofiad byw iawn oedd gwranddo ar Heini Thomas yn darllen traethawd o waith ei mamgu, Mrs Mali Davies Jones, ar y testun 'Yr Oeddw'n i Yno' a hithau wedi ysgrifennu ym mhersonoliaeth ei thadcu hi am gyfnod cyffrous y 'Troed Allan'.

Gwasanaeth Undebol Capeli'r Dref

Tro Brondeifi oedd rhoi cartref i'r gwasanaeth yma ym Mis Mai. Gan ei bod yn fis Cymorth Cristnogol priodol iawn oedd cael y Parch Robin Samuel, sydd yn Ysgrifennydd Rhanbarthol Cymorth Cristnogol i'n annerch ac i son am ei ymweliad gyda Nairobi mewn cyswllt â phrosiect y mudiad i wella gwasanaethau dŵr a glanweithdra yn y wlad. Cymerwyd rhan gan aelodau o gapeli ag eglwysi'r dref a gweddiwyd gan Gwenda Davies ar ran Brondeifi. Cyflwynwyd y casgliad i'r Parch Robin Samuel at gronfa Cymorth Cristnogol.

Gwasanaeth

Bu'r Parch Alun Wyn Dafis yn gwasanaethu ar rai Suliau, hefyd Mr Arthur Roderick a chafwyd ymweliad eleni eto gan Diana Bianchi o Gaerdydd.

Diolchir iddynt am ei gwasanaeth ac hefyd i'r organyddesau i gyd am eu gwasanaeth hwythau gydol y cyfnod.

Marwolaethau

Yn dawel, ar ddydd Iau, Ebrill 29, 2010 yn ei gartref Cysgod y Llan, Llandysul, yn 88 mlwydd oed, bu farw David Edward William (Willie) James. Gŵr tawel, distaw yn mwynhau sgwrs a mwgyn. 'Bu'n ddiddig ymhob digwydd – ar hyd ei oes Bu'n dad caredigrwydd.'

Wynebodd ei afiechyd yn wrol ac yn ddewr a dirwgnach. Bu ef a'i briod, Iris, mewn busnes yn Llundain o 1948 tan 1983, ac yn aelodau ffyddlon o gapel Radnor Walk. Wedi dychwelyd i Lanbed yn 1983 gwnaethant ymuno â Brondeifi ac eto bu'r ddau yn ffyddlon a

gweithgar yno. Bu'r ddau yn cymryd eu tro yn wythnosol yn Siop y Smotyn Du am flynyddoedd. Bu Willie'n briod annwyl i Iris ac yn dad a thad yng nghyfraith, tadcu a hen dadcu cariadus ac yn gyfaill cywir i bawb. Bu'r angladd ym Mrondeifi ar Fai 6ed a'i gladdu yn y fynwent yno.

Claddwyd Charlotte Helena (Lena) Hughes ar Ddydd Mercher, Mai 19eg ym Mrondeifi. Hi oedd aelod hyna'r Capel a bu'n ffyddlon i'r lle ar hyd ei hoes. Fe'i codwyd i fynychu'r Ysgol Sul, Urdd y Benywod, Cymdeithas Ddrama'r Capel, Debating Society, yr Ysgol Gân ac i bopeth a gynhelid yno o'i dyddiau cynnar hyd at iddi ymdddeol. Dair blynedd yn ôl penderfynodd fynd i Gartref Maesyfelin, Drefach ac yno cafodd ofal cyson cariadus. Bu'n fodryb, hen fodryb a hen, hen fodryb annwyl. Bu'n ffyddlon a charedig i bawb ar hyd ei bywyd.

CAPEL Y CWM

Llongyfarchiadau

Ymfalchiwn fel aelodau Capel y Cwm yn llwyddiant ein gweinidog, Parch Wyn Thomas wedi iddo ddechrau ar ei ddyletswyddau yn Ffermwr Ifanc y Flwyddyn am y cyfnod 2010-2011 yng Ngheredigion. Mae Wyn yn aelod ffyddlon iawn o G.Ff.I. Pontsian ac fe welwyd Wyn ar y llwyfan yn Rali Llanddeiniol yn ystod mis Mai eleni.

Ysgol Sul

Mae Ysgol Sul Capel y Cwm wedi ail gychwyn ers canol mis Mawrth. Mae Nia Davies, Maesglas wedi cymryd yr awennau gyda rhieni yn ei chynorthwyo yn eu tro.

Yn ystod mis Mawrth cynhaliwyd Arholiad Ysgol Sul yng Nghapel-y-Cwm ac yn ddiweddar trosglwyddwyd tystysgrifau i'r canlynol:

Dan 7: Bethan Jenkins, Beca Jenkins, Luke Jenkins, Lisa Jenkins, Luned Jones, Lois Jones, Hafwen Davies,

7-9 oed: Sioned Fflur Davies, Osian Davies, Owain Jones.

9-11 oed: Meleri Jenkins a Cerys Pollock cydradd cyntaf.

Mae croeso cynnes i unrhyw un newydd i ymuno gyda ni ym mis Medi.

Cydymdeimlo

Yn ystod y mis daeth profedigaeth i ran Ian a Chris Jones a'r teulu, Ty Crian, yn dilyn marwolaeth ei dad, David Jones, yn 88 oed. Bu'r gwasanaeth yng Nghapel y Cwm ac yno rhoddwyd ei weddillion i orffwys.

Cwrdd Pawb Ynghyd

Ar brynhawn hyfryd o Wanwyn yn ystod mis Ebrill cynhaliwyd Cwrdd Pawb Ynghyd Capel-y-Cwm gyda'r Parch Wyn Thomas yn llywyddu a Meleri Williams, Clynoch wrth yr organ. Braff oedd cael croesawu cyfeillion o bell ac agos i'r oedfa – rhai sydd yn cyfrif Cwm yn gartref ysbrydol iddynt.

Penblwydd arbennig

Dathlodd David Richards, Elmo, ei benblwydd yn 90 oed yn ystod y Gwanwyn. Iechyd da i chi eto i'r dyfodol.

Gymanfa Ganu

Bu Osian Davies, Fronheulog, yn darllen emyn dros Capel-y-Cwm yn y Gymanfa Ganu eleni a gynhaliwyd yng Nghapel Llwynrhydowen, Rhydowen.

Anffawd

Yn anffodus cafodd Owain Jones, Blaenhirbant Uchaf, anffawd yn ystod y Gwanwyn ond erbyn hyn mae wedi gwella'n llwyr.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Catrin Jones, Talar Wen, ar gael ei hapwyntio'n athrawes Cyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Gynradd Llandysul yn ddiweddar ac fe fydd yn dechrau yno ym mis Medi. Pob dymuniad da i ti.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru: Canlyniadau Arholiad yr Ysgolion Sul 2010

Dan 7 oed (Llafar)

Bethan Jenkins, Capel y Cwm
Beca Jenkins, Capel y Cwm
Luke Jenkins, Capel y Cwm
Lisa Jenkins, Capel y Cwm
Lois Jones, Capel y Cwm
Hafwen Davies, Capel y Cwm
Ioan Evans, Bwlch y Fadfa
Meryl Evans, Bwlch y Fadfa
Erin Griffiths, Bwlch y Fadfa
Owain Griffiths, Bwlch y Fadfa

7-9 oed (Llafar)

Sioned Fflur Davies, Capel y Cwm
Osian Davies, Cael y Cwm
Owain Jones, Capel y Cwm
Carys Evans, Bwlch y Fadfa

9-11 oed

Cerys Pollock, Capel y Cwm
Meleri Jenkins, Capel y Cwm

Fe wnaeth Cerys a Meleri greu poster gwyh o fywyd Mari Jones o'r Bala, gyda llawer o feddwl wedi mynd mewn iddo. Penderfynwyd fod Cerys a Meleri yn haeddu rhannu'r wobr gyntaf a chawsant docynnau llyfrau gwerth £5 yr un. **Da iawn chi.**

'CYNNAL Y FFLAM'

Llyfr sydd yn cynnwys darlenniadau a deunydd ar gyfer addoliad. Cyhoeddir Awst 2010.

Gellir cael y llyfr oddi wrth y Parch
Eric Jones, 14 Clifton Street,
Aberdar am £5 (£6 drwy'r post)

COLOFN DYLAN IORWERTH



O Neuaddlwyd i'r Ynys Goch

Roedd gen i, fel miloedd o blant yng Nghymru, focs cenhadaeth. Wrth ymyl y ffôn oedd o ac yn cael ei dynnu allan pan oedd perthynas neu ffrind mwy cefnog na'i gilydd yn digwydd taro heibio.

I'r gwaith ym Mryniau Khasia yr oedden ni, Fethodistiaid Calfinaidd bach Waunfawr, yn arfer casglu heb fawr o syniad beth oedd gwaith y cenhadon yno, yng ngogledd India. Petaen ni wedi aros yn Nolgellau ac yn Annibynwyr, i genhadon Madagascar y byddai'r casglu a stori'r rheiny wedi dechrau yn Neuaddlwyd, Aberaeron, bron 200 mlynedd yn ôl. O fewn llai na mis i fod yn Eisteddfod yr Urdd, yng ngolwg yr hen gapel bach a'r academi gyferbyn â Llanercharon, roeddwn innau'n gweld olion gwaith y cenhadon cynnar hynny – ym Madagascar ei hun.

Gwned rhaglen deledu yr o'n i, efo cwmni Unigryw o Aberystwyth, a rhan o'r rheswm pam mai fi oedd yno oedd fy mod i'n Undodwr. Yn ôl pob sens, ddylen ni ddim bod o blaid cenhadu - rhydd i bawb ei grefydd.

Yn yr hydref y bydd y rhaglen i'w gweld ar S4C a ninnau'n dilyn ôl traed David Jones, Thomas Bevan a David Griffiths, a adawodd Neuaddlwyd am Madagascar rhwng 1818 ac 1821. Bechgyn lleol iawn oedd y ddau gynta', a David Griffiths yn dod o Wynfe, Sir Gaerfyrddin.

Ychydig flynyddoedd wedyn, mi fyddai bachgen lleol arall – David Jones o Llain, Llanina – yn mynd ar eu holau ond, erbyn hynny, roedd Thomas Bevan a'i deulu a gwraig a phlentyn David Jones wedi marw o'r malaria.

Mae'n anodd dychmygu eu taith nhw yn y dyddiau hynny - bron bedwar mis ar long i wlad nad oedden nhw'n gwybod fawr ddim amdani, lle y gallen nhw fod mewn peryg. Ond, draw ym Madagascar – Yr Ynys Goch - mae'r Cristnogion yn eu cofio nhw a dwy ysgol yn un o'r dinasoedd wedi eu henwi ar eu hôl.

Beth bynnag am genhadu, a beth bynnag am resymau Prydain tros fod eisiau dylanwad ym Madagascar, addysg ydi etifeddiaeth fawr cenhadon Neuaddlwyd. Yn union fel yr unig genhades Undodaidd honno, Margaret Barr.

Nhw a roddodd ddechrau go iawn ar Gristnogaeth yn y wlad – ac mae mwy na hanner y boblogaeth yn Gristnogion bellach – ac roedd addysg yn rhan hanfodol o'r broses o ledu'r efengyl.

Nhw a greodd y drefn i sgrifennu iaith Madagascar a nhw a arweiniodd y gwaith o gyfieithu'r Beibl.

Does dim modd osgoi'r ffaith bod addysg – a chrefydd – yn newid ffordd pobol o fyw. Does yna ddim amheuaeth bod y ddau, fel ei gilydd, yn agor rhywle fel Madagascar i ddylanwadau tramor. Wrth fabwysiadu syniadau newydd, roedd yr hen rai'n cael eu gwthio o'r neilltu.

Heddiw, mae Madagascar yn wlad drawiadol – ynys anferth fwy na Ffrainc, gyda bywyd gwyllt unigryw a phobol agored a braf. Yn y wlad, mae'n hawdd dychmygu fod rhai o'r pentrefi yn debyg iawn i'r hyn a welodd y cenhadon ... a heb fod mor wahanol â hynny mewn rhai ffyrdd i Geredigion yr un cyfnod.

Heddiw hefyd, mae yna dodi mawr ac 80% o'r bobol yn byw o dan lefel tlodi. A dyna pam fod addysg mor ofnadwy o bwysig. O'r dechrau, roedd y cenhadon Cymreig a'u gwragedd yn gweld yr angen i roi'r gallu i'r bobol leol ddatblygu eu bywydau eu hunain.

Mae yna un olygfa fach na fydd, efallai, yn cael lle yn y rhaglen deledu oherwydd pwysau amser. Ond mi fydd hi'n aros yn fy meddwl i.

Mewn cartref ac ysgol i blant yr oedden ni – un o hen gartrefi cenhadon diweddarach wedi ei droi yn lloches i blant oedd wedi colli'u teuluoedd neu yn dioddef o gam-drin neu drais. Bob blwyddyn, mi fydd un o'r bobol ifanc yn dod draw i Gymru i eglwys Penrhys yn y Rhondda.

Roedden ni'n paratoi i adael pan ddaeth merch tua 13 oed draw i ddweud ei bod eisiau siarad. Mi edrychodd i lygad y camera a dweud yn Ffrangeg ... "mae fa'ma wedi newid fy mywyd".

Trosglwyddo awennau siop y smotyn du

Dair blynedd ar ddeg yn ôl, sefydlodd y Parchedig Goronwy Evans a'i wraig, Beti, Siop y Smotyn Du. Gyda'r siop bellach wedi hen ennill ei phlwy' yn Stryd Fawr, Llanbed, mae Goronwy a Beti wedi penderfynu ei bod hi'n bryd trosglwyddo'r awennau i rywun arall. Dyma rai o atgofion Goronwy am y siop a hanes ei ffurfio.



Y prynu a'r gwerthu yn y siop



Yr hyfforddwr rygbi, Graham Henry, yn denu'r torfeydd



Gwirfoddolwyr y siop mewn llun a dynnwyd ychydig flynyddoedd yn ôl



Cynog Dafis yn arwyddo ei lyfr

Mae pob un yn cael rhyw freuddwyd neu'i gilydd am yr hyn y carai gyflawni mewn bywyd.

Bu'r freuddwyd o gael Canolfan a Siop i'r Mudiad Undodiaidd yng Nghymru yn cynnig ei hun i mi am flynyddoedd. Roedd gan bob achos crefyddol arall ganolfan – Pam ddim yr Undodiaid? Os cael lle, ble'n well na Llanbedr Pont Steffan, bro'r Smotyn Du.

Dyma fwrw ati a threfnu trwy garedigrwydd Dafydd a Delyth Jones, Ffosyffin, Cellan i rentu stafell yn 32 Stryd Fawr, Llanbed.

Casglwyd nifer o wirfoddolwyr i gymryd eu tro bore neu brynhawn pan fyddai'n gyfleus iddynt. Yna dewis enw i'r Siop – yn wir, doedd hynny'n fawr o broblem gan fod y 'Smotyn Du' yn cynnig ei hun. Y cwestiwn a geir gan lawer yw "Beth yw ystyr ac arwyddocâd y 'Smotyn Du'? "Yr eglurhad am hynny yw mai dyma'r enw a roddwyd gan y Methodistiaid ar y darn o'r wlad rhwng Llanbed, Llandysul a Chiliau Aeron a hynny oherwydd i'r Diwygiad yn y ddeunawfed ganrif fethu â llwyddo yno oherwydd presenoldeb yr Undodiaid.

Erbyn hyn, yn ogystal â bod yn ganolfan i'r mudiad mae hefyd yn Siop Lyfrau Cymraeg. Agorwyd yr adeilad yn swyddogol gan Cynog Dafis ym 1997.

Ni fyddai'n bosibl gweinyddu'r Siop oni bai am wasanaeth y tîm o wirfoddolwyr cydwybol sy'n cymryd eu tro yno. Ymhlith y diwrnodau cofiadwy yn y siop mae'r dydd pan lwyddwyd i gael Graham Henry, hyfforddwr Tîm Rygbi Cymru ar y pryd, (y Crysau Duon nawr) i lofnodi ei lyfr X-Factor. Mewn ychydig dros ddwy awr llofnododd dros 300 o lyfrau.

Hanner can mlynedd yn ôl gweithdy'r crydd ac efail y gof oedd senedd y pentref a'r dref. Rwy'n falch dweud bod Siop y Smotyn Du wedi dilyn yn y traddodiad hynny. Mae'r cwsmeriaid yn galw am gerdyn neu lyfr a hynny'n datblygu'n sgwrs a rhoi'r byd yn ei le. Dyma siop y dysgwyr ac yn lle iddyn' nhw ymarfer eu Cymraeg. Yn wir, dysgwraig yw un o'n gwirfoddolwyr wythnosol.

Yn eu tro daeth yr awduron i lofnodi eu llyfrau megis Caryl Lewis, Dai Jones, Charles Arch, Lyn Ebenezer, Gary Slaymaker, W.J.Gruffydd, Cynog Dafis, David Davies (Defi Fet), Gillian Elisa, Emyr Llywelyn ac eraill. Hefyd bu Gwenda Owen yn lofnodi ei chryno-ddisgiau. Ar gyfer dathlu penblwydd T.Llew Jones yn 90 oed cafwyd cyflenwad o'r holl lyfrau a oedd mewn print, a rheiny wedi eu lofnodi ganddo.

Mae'r freuddwyd bellach wedi ei gwireddu a Siop y Smotyn Du yn llanw gwagle ym mywyd y fro ac ar yr un pryd yn cyfoethogi Cymdeithas, Cymreictod a Chrefydd, yn arbennig syniadau ac egwyddorion Undodiaidd.

Mae yna amser yn dod i ran pawb i wneud penderfyniadau. Felly, ar ben 13 mlynedd yn union i'r dyddiad, dyma'r adeg i minnau roi'r gorau i'r gwaith o fod yn rheolwr y Siop gan gyflwyno'r awennau i eraill i gadw'r drws ar agor a'r Fflam yn fyw.

Diolch i bawb dros y blynyddoedd wnaeth gefnogi ac yn arbennig y rheiny a wnaeth helpu yn wythnosol tu ôl i'r cownter a hynny'n ddiflino. I Beti'r wraig am gydweithrediad parod ac am gymryd gofal o'r biliau ac i Mary Davies am ei gwaith trylwyr fel Trysorydd.

Lluniau: Tim Jones

Honiad am angel yn ymddangos uwchben capel Undodaidd a dyn yn gwella o salwch difrifol: Gwyrth neu Freuddwyd?

Y Parchedig Cen Llwyd sy'n adrodd yr hanes am stori hynod a glywodd yn ddiweddar.

Rai wythnosau yn ôl cefais sgwrs y tu allan i Gapel y Groes, a'r unig air y gallaf ei ddefnyddio i'w disgrifio yw "rhyfeddol". Roeddwn yno yn cyfarfod â dau berson i drafod mater arall, ac yn digwydd pasio yn ei gerbyd roedd Gareth Rowlands o Gilfachreda. Stopiodd i adrodd stori hynod iawn.



'Nôl ym mis Chwefror 2009 cafodd Gareth ei daro yn sâl. Mi roedd yn dioddef o bennau tost oedd yn ddifrifol tu hwnt. Roedd yn gweld dyblau ac mi roedd ei lygaid wedi cau. Bu'n dioddef o boen enfawr am tua tair wythnos gan ymweld â'i feddyg teulu ac fe fu bedair gwaith gyda'r arbenigwr yn ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Ofnwyd ei fod yn dioddef naill ai o diwmor ar yr ymennydd, neu fod gwythïen tu ôl i'w lygaid ar fin byrstio ac y gallai hynny ddigwydd unrhyw funud. Yn ystod ei ymweliad olaf â'r ysbyty cafodd y teimlad nad oedd ganddo fawr o amser ar ôl i fyw. I bob pwrpas, dyna a ddywedwyd wrtho gan y meddyg, oherwydd iddo ddangos syndod ei fod yn dal ar dir y byw. Fe'i gynghorwyd i fod yn llonydd a thawel. Roedd yn rhy wan ta beth i fedru gwneud dim ac yn wir fe fu rhaid iddo orffwys yn llwyr. Un nos Wener yn niwedd Chwefror bu yn gweddïo yn daer ac ar y bore Sadwrn canlynol ac yntau yn gorwedd ar y cowtch yn y tŷ fe aeth i gysgu.

Y peth nesaf mae yn ei gofio yw ei fod yn hedfan yn yr awyr uwch ben yr hewl rhwng Cribyn a Llanwnnen, ac wrth iddo agosáu at Fish & Anchor fe welodd yn y pellter angel yn codi o fynwent Capel y Groes, ac yn hedfan tuag ato. Wedi ei gyrraedd dyma'r angel yn rhoi llaw ar ei dalcen. Dihunodd ac fe sylwodd fod y pen tost wedi diflannu. Yn dilyn hynny cafodd sgan mewn ysbyty a methwyd yn lan a ffeindio beth allai fod wedi achosi'r pen i fod yn dost yn y lle cyntaf. Ond dyw'r rhyfeddod ddim yn gorffen fan honno! Er bod y pen tost wedi gwella bu am rai misoedd yn dioddef



Mwy o wybodaeth ddiddorol am brofiad Gareth Rowlands a'i gysylltiadau teuluol

o weld dwbl hyd nes iddo gael profiad rhyfeddol arall a hynny mewn mynwent Undodaidd unwaith eto. Roedd wedi cynnig i rai aelodau Bwlchfadfa y byddai yn barod i glirio'r coed oedd wedi cael eu torri yn y fynwent. Gwnaeth hynny am fod gan Enid ei wraig, sef un o ferched Cefn Crugos, Llanarth, gysylltiadau cryf â'r capel. Mae llawer o'i theulu, gan gynnwys ei mam, Gladys Jones, wedi eu claddu yno. Cadwodd at ei addewid ac un diwrnod ym mis Mehefin aeth yno i glirio'r coed. Wedi gorffen y gwaith sylweddolodd yn sydyn fod y diffyg ar y llygaid o weld dyblau wedi diflannu. Ymhen dyddiau aeth at yr optegydd i brofi ei lygaid ac am y tro cyntaf ers 30 mlynedd nid oedd yn rhaid iddo mwyach wisgo sbectol.

Rwy'n ystyried hi yn fraint bod Gareth wedi caniatáu i mi gofnodi'r hanesyn ac wrth wneud hynny yn gadael i chi ddod i gasgliadau eich hunain. Tybed beth ddigwyddodd iddo gyda'r angel o Gapel y Groes? Ai rhyw fath o wyrth oedd hyn, neu ai breuddwyd a gafodd? Efallai iddo gael rhithweledigaeth? Tybed a wnaeth Gareth brofi ffenomen y Profiad Ar Fin Marw (Near Death Experience). Os felly, beth oedd y cysylltiad â Chapel y Groes a pham yno yn fwy nag unlle arall? Falle na chawn ni ddod o hyd i'r atebion ond beth bynnag ydynt y pleser mwyaf i bob un o ddarllenwyr
Yr Ymfynydd yw llawenhau gyda Gareth ei fod yn fyw ac yn iach ac wrthi bron bob dydd yn gwneud ei waith dyddiol.

- Yn cyd-fynd gyda'r Profiad Ar Fin Marw neu Ar Drengi neu Wrth Borth Angau - galwch e' beth a fynnoch - mae rhai nodweddion arbennig megis bod y meddwl yn gwbl ar wahân i'r corff; ofn eithafol; neu, ar y llaw arall, sicrwydd; tawelwch; sirioldeb; cynhesrwydd ac ysgafnder. Yr unig un o'r teimladau sydd yn gysylltiedig â'r profiadau a gafodd Gareth yw presenoldeb golau llachar a'r teimlad ei fod yn mynd ar daith drwy dwnel o olau cryf. Dywed hefyd bod yna olau llachar o gwmpas yr angel gyda'r teimlad o hapusrwydd llwyr ymhob man.
- Mae Gareth yn 71 oed yn aelod ac yn ddiakon yng Nghapel Annibynnol y Wern. Ers y profiad mae'n llawer mwy selog yn yr oedfaon ac yn teimlo fod llawer mwy o awydd arno i fynychu'r capel. Nid yw mynd i'r capel bellach yn faich iddo ond yn bleser pur.
- Ganwyd Gareth mewn lle o'r enw Llain ym mhentref Derwen Gam, yn fab i Dewi a Mari Rowlands. Pan oedd hi ond yn 27 mlwydd oed fe fu ei fam farw gan adael ei chwaer ac yntau, oedd ond yn 8 oed ar y pryd.
- Er fod Gareth yn aelod yng Nghapel Annibynnol y Wern, mae ganddo gysylltiadau cryf iawn ar ochr ei dad gyda'r Undodiaid gan taw ei fodryb, sef chwaer ei dad, yw Lisa Jones, Brynfa, Bwlchfadfa. Chwaer arall oedd Sally Jenkins, Cathal gynt, sydd wedi ei chladdu ym mynwent Cwmsychbant. Un o frodyr ei dad oedd Trefor Rowlands, sydd wedi ei gladdu ym mynwent Rhyd-y-gwin.
- Mi roedd Hannah Rowlands o Dalgarreg yn aelod yng Nghapel Annibynnol Pïsgah a'i frawd Dannie Rowlands yn aelod ac yn ddiakon yn Nghapel Annibynnol Carmel, Prengwyn. Mae'r ddau wedi eu claddu ym mynwent capel Carmel.

Apêl am olygydd newydd

Wedi dros bum mlynedd yn golygu'r Ymfynydd rwy' wedi penderfynu ei bod hi'n bryd i fi drosglwyddo'r awennau i rywun arall. Y rhifyn nesaf, felly – rhifyn Gaeaf 2010 – fydd yr un olaf i fi olygu. Rwy' wedi mwynhau'r profiad yn fawr a gobeithio eich bod chi hefyd wedi cael mwynhad o ddarllen Yr Ymfynydd dros y cyfnod hwnnw.

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at y cylchgrawn – yn enwedig y gohebwy'r o'r capeli a cholofnwyr cyson. Diolch hefyd i weinidogion y mudiad Undodaidd yng Nghymru am eu cymorth a'u cydweithrediad parod, ac, wrth gwrs, i Swyddogion Pwyllgor yr Ymfynydd am eu cyngor a'u cefnogaeth. Hefyd diolch i chi fel darllenwyr am brynu a darllen y cylchgrawn, ac rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch chi'n parhau i wneud hynny i'r dyfodol.

Oherwydd mod i'n camu o'r neilltu, mae angen unigolyn, neu efallai dîm o bobl, i gymryd yr olygyddiaeth. Os oes diddordeb gyda chi, cysylltwch gyda Chadeirydd neu Ysgrifennydd Yr Ymfynydd.

Eu manylion cyswllt yw: **Arthur Roderick, Cadeirydd, 01570 422361** neu **Ann Harries, Ysgrifennydd, 01559 363433.**

Diolch eto, a hir oes i'r Ymfynydd.

Ioan Wyn Evans

COFIO HELEN THOMAS

YMGYRCHWRAIG HEDDWCH WNAETH SEFYLL, A MARW, DROS EU CHREDOAU 21 MLYNEDD YN ÔL - Gan Ioan Wyn Evans

Yn 1981 cyhoeddodd llywodraeth yr Unol Daleithiau eu bod nhw am osod 96 o daflegrau *cruise* mewn gweryll milwrol ger Newbury yn Berkshire. Ysgogodd y cyhoeddiad hwnnw ymateb cryf gan brotestwyr dros heddwch. Ymhlith y rheiny roedd criw o fenwyod a gafodd eu symbylu i drefnu gorymdaith arbennig o ffatri arfau yng Nghaerdydd i ganolfan filwrol yr Unol Daleithiau yn Greenham yn Berkshire. Wedi iddyn nhw gerdded y 110 milltir, penderfynodd y merched sefydlu gweryll heddwch ar Gomin Greenham.

Yn ystod y degawd nesaf tyfodd y gweryll yn symbol amlwg yn y frwydr yn erbyn arfau niwclear. Ond yn fwy na hynny, roedd hefyd yn symbol o dwf llais menywod ar y llwyfan gwleidyddol, nid yn unig ym Mhrydain, ond yn rhyngwladol. Ym mhrotest 'Embrace the Base', er enghraifft, a drefnwyd yn Greenham yn 1982, daeth dros 30,000 o fenywod ynghyd i ddangos eu gwrthwynebiad i arfau niwclear ac i ymgyrchu dros heddwch byd eang. Ym mis Mai 1989 cyrhaeddodd merch ifanc o Gastellnewydd Emlyn wersyll Comin Greenham. Roedd Helen Thomas yn 22 oed ac yn huanu o deulu oedd â chysylltiadau cryf gyda'r mudiad Undodaidd. Ac roedd syniadau gwleidyddol Helen yn sicr yn perthyn i'r traddodiad radical sy'n sail i Undodiaeth. Fel ymgyrchwraig dros heddwch, roedd Helen yn credu'n gryf ei bod hi'n hollbwysig i fenywod wneud safiad yn erbyn yr hyn yr oedd llywodraeth America yn ei wneud yn Greenham. Mewn amser byr, datblygodd yn aelod blaenllaw o'r criw oedd yno yn protestio. Ysgrifennodd am y profiad yn Gymraeg a Saesneg, a chyhoeddwyd llythyr ganddi ym mhapur yr Independent. Ond prin dri mis ar ôl iddi gyrraedd Greenham, digwyddodd trychineb. Ar Awst 5ed 1989, cafodd Helen ei tharo gan gerbyd cludo ceffylau'r heddlu. Fe'i lladdwyd

ychydig ddiwrnodau cyn ei phenblwydd yn 23 oed. Fe wnaeth marwolaeth trist Helen annog ei chyfeillion i barhau gyda'u protestiadau, ac wedi blynyddoedd o ymgyrchu fe wnaeth eu brwydr ddwyn ffrwyth. Yng nghanol yr 1990au daeth oes gweryll milwrol yr Unol Daleithiau yn Greenham i ben, ac erbyn 2000 tynnwyd y ffens a fu'n gwarchod y taflegrau i lawr am byth. Heb os, roedd hyn o symbol o fuddugoliaeth i'r menywod a fu yno'n protestio mor ddygn.

Bellach mae gardd heddwch wedi ei sefydlu yn Greenham a rhan o'r ardd honno wedi ei neilltuo i gofio am Helen Thomas gyda'i henw wedi ei gofnodi yno.

Ac ar y 1af o Awst, bydd digwyddiad arbennig yn cael ei gynnal yn yr Ardd Goffa yn Greenham i goffáu Helen, 21 mlynedd wedi ei marwolaeth. Bydd cyfraniadau amrywiol gan Dafydd Iwan, y Prifardd Emyr Lewis, y Priflenor Meg Elis, Llinos a Cynog Dafis, Dion a Catrin, Heledd a Gwenllian sydd yn ddisgyblion yn Ysgol Dyffryn Teifi (sef yr ysgol a fynychodd Helen); Lowri Evans, ynghyd â rhai o aelodau Aelwyd Emlyn.

Os ydych yn darllen yr erthygl yma CYN AWST 1af ac am fynychu'r digwyddiad yn yr Ardd Goffa, bydd bws yn cael ei drefnu o ardal Castell Newydd Emlyn. Am fanylion pellach cysyllter gyda'r Parch Cen Llwyd ar 01545 590295.



Mam yn sôn am ei phryder a'i balchder: Sylwadau Janet Thomas, mam Helen



Merched Greenham



Yr Ardd Goffa yn Greenham

“Ges i sioc pan ddywedodd Helen ei bod hi am fynd i Greenham yn y lle cynta’. Yn amlwg, ro’n i wedi clywed am ferched eraill yn mynd, ond roedd hyn yn wahanol . Fel mam, yn naturiol, ro’n i’n llawn pryder. A do’n i ddim yn hapus. Ond mynd oedd hi am wneud – roedd hi wedi penderfynu. Ac roedd hi’n ferch aeddfed oedd â syniadau pendant iawn.

Roedd gofid ofnadwy arna i, ond do’n i byth wedi meddwl y bydde hi’n cael ei lladd, chwaith. O ran cymeriad, roedd hi’n rywun oedd yn fodlon herio awdurdod os oedd hi’n credu bod angen gwneud hynny. Ac roedd hi’n benderfynol iawn hefyd – yn debyg i’w mam fyddai rhai’n dweud, falle!

Pan fuodd hi farw wedi ond ychydig fisoedd yn Greenham yn naturiol fe wnaeth e’ fwrw ni’n galed fel teulu. Dwi ddim yn teimlo’n flin neu’n sur tuag at neb. Ond, o’n i’n grac gyda fi fy hunan achos mod i ddim wedi cael y cyfle i ddweud wrthi pa mor falch o’n i ohoni yn sefyll dros yr hyn roedd hi’n ei gredu.

Wedi i Helen farw gawson ni dros 700 o gardiau a dros 300 o lythyrau – oedd yn dal i’n cyrraedd ni rai blynyddoedd ar ôl ei marwolaeth. Yn amlwg, roedd hynny’n lot o gysur i ni, ac roedd e’n dangos hefyd bod ’na barch mawr gan bobl at Helen.

Rwy’n cofio hi’n sôn bod y menywod yn Greenham yn ysbrydoliaeth iddi. Ers iddi farw, rwy’ wedi dod i nabod nifer fawr o’r menywod hynny, ac rwy’n gweld yn iawn beth roedd Helen yn ei feddwl. Rwy’ wedi dod yn ffrindiau da gyda nifer ohonyn nhw, ac mewn cysylltiad gyda nhw o hyd. Ar Awst 5ed bob blwyddyn (y diwrnod pan fuodd Helen farw) mae ’na flodau yn cael eu hanfon yma gan rai o fenywod Greenham.

Wrth gwrs, ry’n ni fel teulu yn cofio am Helen bob dydd. Ond ry’n ni’n ddiolchgar iawn am gefnogaeth pobl eraill – pobl fel y Parchedig Cen Llwyd, Dafydd Iwan ac ymgyrchwyr eraill wnaeth drefnu’r digwyddiad i gofio amdani yn yr Ardd Goffa yn Greenham. Dyna’r math o gefnogaeth sy’ wedi ein cynnal ni ar hyd y blynyddoedd.

Fe fuodd Helen farw yn gwneud beth oedd hi’n mo’yn gwneud. Roedd hi’n hapus yn Greenham oherwydd bod yr ymgyrch neu’r achos yn rhywbeth oedd mor bwysig iddi. A dwi ddim yn credu y byddai hi wedi bod yn iawn i fi fod wedi sefyll yn ei ffordd hi a cheisio ei rhwystro hi rhag mynd yno yn y lle cynta’.”

- *Diolch yn fawr i Mrs Janet Thomas am fodloni i’r Ymofynnydd gynnwys ei sylwadau – Gol.*

Llun o Lundain sy'n gysylltiedig â'r 'Troad Allan' Y Parchedig Cen Llwyd

Dyma ddyfyniad allan o **Y Fflam Fyw** (Stori Gwilym Marles a Brwydr Rhyddid Barn 1868) gan D Jacob Davies:

Nid oedd ysgwieriaid Galltyrodyn yr adeg yma yn perthyn i gyff yr uchelwyr breiniol a chyfreithwyr wedi 'gwneud arian' oedd John Lloyd Davies gan iddo briodi i mewn i'r cylch cyfrin fe'i derbyniwyd fel rhan o'r drefn weinyddol yn y Sir a bu'n Aelod Seneddol am ddwy flynedd o 1855. Yr oedd yn ŵr digon egniol, yn Dori cydwybodol a wrthwynebodd fudiad y Beca yn ffyrnig ond a fu hefyd yn gyfrwng i gael relwe o Gaerfyrddin i Landysul. Bu farw yn 1860 a'r etifedd ifanc John Davies-Lloyd, oedd ar yr orsedd deuluol ym mhrif flynyddoedd ein stori, gwr a dreuliai'r rhan fwyaf o'i amser yn teithio ac a adawodd ei fusnes yn llaw'r stiward.

Y stiward hwnnw, Mason Allen, a drawodd ergyd cyntaf y dial drwy lythyr at John Jones, Gellifahren, Ysgrifennydd Capel Gwilym Marles yn Llwynrhydowen; daeth y llythyr i law ar Hydref 25, 1876:

1, John Street,
Bedford Row,
London W.C.
20th October, 1876

Re. RHYDOWEN CHAPEL:

Dear Sir,

I beg to call your attention to the lease herein dated the 19th March 1781, and to inform you that I have been instructed and intend forthwith to take possession of the above chapel, and I forbid any person to trespass therein. I shall bring actions against any person entering the chapel from this date.

In explanation of the above, it is but fair to you to mention that the lessees being all dead, and no successors having been appointed, the tenement reverts to the landlord, against whom all persons are trespassers.

Had even the succession of trustees been kept up, I should have sought to eject them from breaches of the covenant to use the chapel for worship of God and "to no other purpose whatsoever."

I am, dear Sir, Yours truly

S. M. Allen

Ddiwedd mis Mehefin fe fŵm yn Llundain a rhaid oedd gyrru heibio **John Street yn Bedford Row**. Tra yno gwnes dynnu'r llun yma o'r union adeilad oedd nôl yn 1876 yn swyddfeydd i'r stiward S.M. Allen, a ddyfynnir yn y llythyr uchod. Ro'n i'n meddwl y byddai'r llun o'r lle heddiw o ddiddordeb i ddarllenwyr Yr Ymfynnydd.



Dwynwen Mai Davies a Heledd Llwyd - dwy gyfnither, a dwy Undodwraig o'r Smotyn Du y tu allan i hen swyddfeydd y stiward S.M. Allen yn Llundain

Undodwr yn gyfrifol am gyfrol bwysig newydd ar Lloyd George

Ioan Wyn Evans fu'n sgwrsio gyda'r awdur




Yr Awdur
J. Graham Jones

Wedi dros 30 mlynedd yn ymchwilio i hanes Lloyd George fel gwleidydd ac fel dyn, mae aelod o Gapel Brondeifi, Llanbed, wedi ysgrifennu llyfr newydd ar y Prif Weinidog o Lanystumdwy.

Mae J. Graham Jones yn Bennaeth Archif Wleidyddol Gymreig y Llyfrgell Genedlaethol, ac yn hanu o Aberdar, er fod ei deulu â chysylltiadau cryf gydag ardal y Smotyn Du.

Mae ei ddiweddar rieni, John a Mordina, wedi eu claddu ym mynwent Brondeifi.

Ers ei ddyddiau ysgol mae Graham wedi ymddiddori ym mywyd a gwaith Lloyd George, ac mae 'na dri brif rheswm am hynny, meddai fe.



'Dyn unigryw'

"Yn gynta', wrth gwrs, roedd e'n Gymro," meddai Graham.

"Ac yn naturiol, roedd hynny yn ysgogiad i fagu diddordeb yn y cymeriad lliwgar yma.

Yn ail, roedd e'n ddyn hollol unigryw. Does neb wedi dringo yn debyg iddo fe ym myd gwleidyddiaeth. Roedd e'n dod o gefndir cyffredin iawn. Doedd e' ddim yn fachgen ysgol fonedd a doedd e' ddim wedi cael addysg brifysgol, chwaith, ond fe lwyddodd i arwain Prydain ar gyfnod tyngedfennol yn ei hanes, adeg y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ac yn ola', mae gyda ni archifau arbennig o gyfoethog yn y Llyfrgell Genedlaethol sy'n ffynhonnell wych o ran ymchwilio i fywyd y dyn hynod yma."

Lloyd George a chrefydd

Heb os, mae Lloyd George yn un o wleidyddion mwya' enwog Prydain ac yn gymeriad arbennig o ddiddorol. Ond a oedd crefydd yn chwarae rhan yn ei fywyd o gwbl?

"Yr ateb i hynny yw, 'Na'," meddai Graham. "I ddweud y gwir, fel gŵr ifanc roedd e' wedi cael rhyw fath o 'contra-conversion' – gwrth-droedigaeth i bob bwrpas, a doedd ganddo fe ddim ffydd grefyddol."

"Ond, wedi dweud hynny, roedd gydag e' bolisiau dyngarol iawn. Fe wnaeth osod y sylfaen ar gyfer y wladwriaeth lês, wrth gwrs – pethau fel pensynau, tâl i'r di-waith, ac yn y blaen – fe oedd yn gyfrifol am rheiny."

Ennill y rhyfel

Ond mae'n debyg mai gwaddol Lloyd George yw cael ei gofio fel arwr gwleidyddol y Rhyfel Byd Cyntaf.

"Roedd e'n cael ei gyfeirio ato fel, 'The man who won the war'," meddai Graham. "Ac rwy'n credu pe baech chi'n gofyn i nifer o sylwebyddion gwleidyddol pwy oedd ffigurau mwya' amlwg gwleidyddiaeth yn y ganrif ddiwethaf, rwy'n meddwl mai'r tri enw y byddai'r rhan fwyaf yn eu crybwyll fyddai Lloyd George, Churchill a Thatcher."

Y 'ddwy wraig'

Ac wrth gwrs, mae bywyd personol Lloyd George wedi denu cymaint, os nad mwy o sylw, na'i gampau gwleidyddol.

"I bob pwrpas, am gyfnod helaeth o'i fywyd roedd gydag e' ddwy wraig – oedd yn cyflawni dyletswyddau ac anghenion gwahanol," meddai Graham.

"Roedd Maggie (Margaret) – ei wraig – yn cynnal pethau yn yr etholaeth iddo fe. Hi oedd yn gyfrifol am gynnal ei gysylltiad gyda Chymru, i bob pwrpas. Ar y llaw arall, roedd Frances Stevenson wedyn – y feistres a ddaeth yn ail wraig wedi marwolaeth Maggie – yn gymar iddo fe ym myd gwleidyddol Llundain. Hi oedd yn trefnu pethau iddo fe ar lefel 'high politics' yn San Steffan."

Yn ddigon naturiol, yn ôl Graham, fe wnaeth perthynas Lloyd George gyda Frances Stevenson gythruddo ei blant, ac yn

enwedig ei ferch, Megan.

"Fe gafodd Frances ei chyflogi gan y teulu yn wreiddiol fel athrawes i Megan pan oedd hi'n blentyn. Ac fe gafodd Megan siom enfawr i ddeall – pan roedd hi tua 20 oed – am berthynas ei thad gyda Frances. Roedd hi'n ddig iawn gydag e', ac fe wnaeth hi fyth faddau iddo fe am hynny, mewn gwirionedd."

Lloyd George a Chymru

Er fod nifer fawr o Gymry yn ymfalchio mai un ohonon ni oedd Lloyd George, bach iawn oedd ei gysylltiad gyda Chymru am y rhan helaeth o'i oes, meddai Graham.

"Roedd e', wrth gwrs, yn un o arweinwyr mudiad Cymru Fydd fel gwleidydd ifanc, ond digon tenau oedd ei ymwneud gyda Chymru wrth iddo fe ddringo'r ysgol wleidyddol. Ac, i ddweud y gwir, yn Surrey roedd e'n treulio y rhan fwyaf o'i amser a dim ond am uchydig wythnosau yn unig y byddai fe'n dychwelyd i'w etholaeth bob blwyddyn."

Gallwch ddarllen llawer mwy am hanes Lloyd George yn llyfr swmpus a chynhwysfawr J. Graham Jones, a lanswyd yng Ngorffennaf mewn digwyddiad yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, yng nghwmni Dafydd Wigley a Ffion Hague. Mae ysgrifennu'r llyfr yn golygu fod Graham wedi gwireddu breuddwyd. Mae'r ymateb calonogol iawn sydd wedi dod oddi wrth adolygwyr y gyfrol yn awgrymu y byddai'n werthchweil i unrhyw un sydd am wybod mwy am un o gymeriadau mwyaf lliwgar yn hanes diweddar Cymru rannu'r freuddwyd honno a darllen y llyfr.

• *David Lloyd George and Welsh Liberalism ar werth nawr. Pris £24.99.*



Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm eleni ar nos Iau, Hydref 21ain, am 7:30 o'r gloch pryd y pregethir gan y Parch Alun Wyn Dafis, Cei Newydd. Croeso cynnes i bawb.

CAPEL Y BRYN

Profedigaeth

Bu farw E.J. Jones, Garth, Cwrtnewydd ar Ebrill 10fed yn 84 mlwydd oed. Claddwyd ei lwch yn mynwent Capel y Bryn ar Ebrill 18fed. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r holl deulu yn eu colled.

Bu farw David Jenkins ar Fai 2il yng Nghartref Maesyfelin, Drefach. Claddwyd ei lwch yng Nghapel y Bryn ar Fai 23ain. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r teulu.

Gymanfa Ysgolion

Cynhaliwyd y Gymanfa Ysgolion eleni yng Nghapel y Bryn. Cafwyd adroddiadau gan nifer o'r plant ac yna cwis a baratowyd gan y Parch Wyn Thomas. Bu Miss Carys Griffiths yn gwasanaethu wrth yr organ. Ar ôl hynny cafwyd te a baratowyd gan y gwragedd yn Ffestri Seion.

Cwrdd Pawb Ynghyd

Cynhaliwyd ein Cwrdd Pawb Ynghyd eleni ar Fehefin 20fed. Cafwyd pregeth bwrpasol gan ein gweinidog. Mrs Sharon Long fu'n gwasanaethu wrth organ.

Llongyfarchiadau

Dymuna aelodau'r capel longyfarch Mrs Sharon Long ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Llanerchaeron, wrth arwain nifer o gorau a phartion gan ddod i'r brig yng nghystadelfaeth y Côr S.A. dan 15. Mae Sharon yn Bennaeth Cerdd yn Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi, Llandysul. Yn ogystal, llongyfarchiadau i bawb fu ynghlwm gyda unrhyw weithgaredd yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

Capel Caeronnen

Gymanfa Ganu

Llongyfarchiadau i Meinir Green am fod yn Lywydd y prynhawn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd ar Dydd Sul, Ebrill yr 25ain yng Nghapel Llwynrhodwen. Ond yn anffodus, oherwydd anhwylder, methodd Meinir fod yn bresennol, Diolch i'r Parch Goronwy Evans, Llywydd y dydd am ddarllen ei neges i'r plant ar gynulleidfa.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i'r aelodau sydd wedi bod yn anhwylyd yn ystod y misoedd diwethaf.

Diolch

Diolch i Dai Green am ofalu am y fynwent. Mae'n bleser ei gweld mor gymen.

CAPEL Y GROES

Sul y Breninesau

Ar Sul 16 Mai daeth deg o gyn-freninesau y Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion sydd â chysylltiad cryf â'r enwad Undodaidd ddod ynghyd mewn oedfa am y tro cyntaf.

Wrth i dymor Manon Richards fel Brenhines Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion orffen am eleni, cynhaliwyd oedfa arbennig yn y capel i nodi'r achlysur. Mae Manon yn aelod ffyddlon ac yn un o organyddion y capel. Daeth cyfnod Manon i ben fel brenhines yn ystod y Rali flynyddol a gynhaliwyd ar y dydd Sadwrn canlynol sef 22 Mai yn Llanrhystud.

Yn y gwasanaeth penodol hynny roedd naw o gyn-freninesau Undodaidd sydd wedi eu coronni ers 1964 yng Ngheredigion, hefyd wedi derbyn gwahoddiad i fynychu'r gwasanaeth. Yn ystod y gwasanaeth gwnaethant i gyd wisgo y 'sash' a braf oedd gweld y ddeg yn bresennol gyda'i gilydd am y tro cyntaf erioed.

Y breninesau i gyd oedd Christina (Hughes) Morgans, Rhyd-y-gwin yn 1964; Megan (Jones) Davies, Brondeifi yn 1965; Mair (Williams) Green, Caeronnen yn 1972; Ann (Davies) Jones, Bwlch-y-fadfa yn 1977; Delyth (Lewis) Jenkins, Capel y Groes yn 1980; Siwsan Dafis, Bwlch-y-fadfa yn 1990; Marian (Thomas) Jones, Capel y Groes yn 1992; Eleri (Jones) Jenkins, Cwmsychpant yn 1998; Meinir Green, Caeronnen yn 2000 a 2001 ynghyd a Manon Richards yn 2009. Roedd cyfle hefyd i rannu llawer o atgofion a darllen rhaglenni y gwahanol Raliau a gynhaliwyd adeg eu coronni. Cymerwyd rhan gan rhai o'r cyn breninesau a chafwyd pregeth amserol gan y Parch Cen Llwyd.

Rhoddyd rhaglen wedi ei chyhoeddi yn benodol i nodi'r achlysur i bob un o'r deg. Roedd hon wedi ei pharatoi gan Nia Wyn Davies. Yn bresennol roedd Llywydd Ffederasiwn Ceredigion sef Glyn Davies o Felin-fach a chafwyd neges pwrpasol ganddo ac hefyd yno roedd Arwel Jones o Lanarth sydd yn Gadeirydd Ffederasiwn y Sir.

I orffen cafwyd lluniaeth a chyfle i sgwrsio a chymdeithasu yn y festri.



CRIBYN

Cydymdeimlo

Trist yw cofnodi bod un o'n haelodau wedi marw yn ddiweddar, sef Mrs Mary Howells, 54 Bro Henllys, Felinfach. Cydymdeimlir yn ddwys gyda Mrs Dilwen Jenkins, Coedlan ar goll i ei chwaer a gyda Mr John Jenkins, Coedlan a Mrs Bethan Henderson, Creigiau ar goll i eu modryb.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Haf ag Alan Meredith, Penbryn, Llanbedd ar enedigaeth merch fach, Hafwen Fflur, ar 8 Mawrth 2010. Chwaer fach i Ifan ac wyres i Ronald a Morwen Thomas, Tynewydd.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Mr Ifan Jones, gynt o Emlyn House (bellach yng Nghartref Preswyl Hafan Deg yn Llanbedd) ac i Mr George Brockwell, Tangaer ar ddathlu pen-blwyddi arbennig yn 80 oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhian Armstrong, Penparcau ar gael gradd BA Y Celfyddydau Perfformio o Adran Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau yng Ngholeg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin. Pob lwc i'r dyfodol.

Gwellhad buan

Rydym am ddymuno gwellhad llwyr a buan i'r holl aelodau a ffrindiau'r achos sydd ddim wedi bod yn dda eu hiechyd yn ystod y misoedd diwethaf.

Ysbyty

Dymuniadau gorau i Mrs Eurwen Davies sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Tregaron. Gobeithio ei gweld nôl yn ein plith yn fuan.

ALLTYBLACA

Marwolaeth aelod hynaf

Ym mis Mai bu farw aelod hynaf y capel, sef Mr Charles Evans, yr arwerthwr (yn 91 oed). Fe oedd yr ieuengaf o naw o blant fferm Dolau Canol, Llanybydder – teulu a fu'n gefnogol i'r capel dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd angladd preifat yn Amlogsgfa Arberth dan ofal ei weinidog, y Parch Cen Llwyd. Claddwyd ei lwch ym medd ei wraig, Caroline, ar y 26ain o Fai yng Nghapel Alltyblaca.

Hefyd yn ystod Mai bu farw ei nai, Talryn Evans, mab y diweddar Wil a Meima Evans, Wempa Lodge, Rhuddlan, Llanybydder. Cynhaliwyd angladd preifat ym mynwent Alltyblaca dan ofal y Parch Cen Llwyd.

Gwasanaeth

Ar ddydd Sul 6 Mehefin cynhaliwyd gwasanaeth cymun yn y capel. Cydymdeimlwyd a theuluoedd y diweddar Charles Evans a Talryn Evans a fu farw yn ystod yr wythnosau blaenorol a hefyd estynwyd cydymdeimlad gyda Sarah Humphreys yn dilyn marwolaeth ei chawer a'i brawd yng nghyfraith o fewn tair wythnos i'w gilydd.

Yn ystod y gwasanaeth llongyfarchwyd Gwennan Evans o Gaerdydd ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron ddeuddydd ynghynt. Fe'i llongyfarchwyd hefyd ar ennill y gystadleuaeth Pum Stori i rai o dan 25 oed ac fe ddarllenwyd rheini yn ystod yr oedfa. Mae gan Gwennan gysylltiad agos â'r capel ac fe ddanfonwyd dymuniadau gorau hefyd i'w mam, Gwyneth Evans, sydd ar hyn o bryd mewn cartref yn Henllan.

Dymunwyd gwellhad llwyr a buan i Derrick Jones, Ysgrifennydd y Capel, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar yn ysbyty Treforys. Danfonwyd dymuniadau gorau yn ogystal i Ray Lewis, Hafan, Bro

Grannell, Llanwnnen oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed wythnos ynghynt.

Penblwydd arbennig

Llongyfarchiadau i ddau aelod o'r capel, sef Gomer a Ray Lewis, Hafan, Llanllwni, ar ddathlu eu penblwyddi yn 80 oed yn gynharach eleni. Bu Ray yn yr ysbyty yn Aberystwyth am gyfnod byr, ond erbyn hyn mae wedi gwella'n llwyr.

RHYD-Y-GWIN

Dafydd Iwan yn Rhydygwin

Ar ddydd Sul 23 Mai am 5 y prynhawn daeth tyrfa dda ynghyd i wasanaeth arbennig yng nghapel Rhyd-y-gwin oedd yn cael ei gynnal gan Dafydd Iwan. Yn ogystal â darllen, gweddio a phregethu gwnaeth hefyd ganu dwy gân. Wedi'r bregeth fe gynhaliwyd Seiat Holi o dan lywyddiaeth Dylan Iorwerth. Yn ystod y sesiwn honno cafwyd cyfle i glywed syniadau diwinyddol Dafydd a'r hyn oedd addoli a chrefydd yn ei olygu iddo. Deallwyd fod ganddo lawer yn gyffredin gyda syniadau Undodiaidd yn enwedig lle mae'r angen am ddefnyddio ein ffydd i weithredu yn ymarferol.

I orffen gwnaeth pawb fwynhau lluniaeth yn y festri oedd wedi ei baratoi gan wragedd y capel.

NEWYDDION Y DE DDWYRAIN

ABERDAR: Eleni, mae Highland Place, Aberdar yn dathlu penblwydd yn 150 oed. Agorwyd ar Ragfyr 20fed, 1860. Trefnwyd nifer o ddathliadau yn ystod y flwyddyn gyda thair o ddarlithoedd ar ddatblygiad Radicaliaeth yng Nghymru. Denodd rhain nifer dda fel cynulleidfâ - mwy na'r disgwyl. Trefnir dwy gyngerdd yn yr Hydref a gwasanaeth arbennig ar Ragfyr 19fed gyda Llywydd y General Assembly yn bresennol, ynghyd â nifer o arweinwyr lleol y gymuned. Bydd penwythnos agored ar y 18fed a'r 19eg o Fedi pan fydd agweddau o hanes y capel yn cael eu dangos. Gorrffennir y dathlu gyda chinio ym mis Chwefror y flwyddyn nesaf. Fe fydd llyfr yn cael ei gyhoeddi ar hanes yr eglwys ac Undodiaeth yng Nghwm Cynon tua diwedd y flwyddyn yma.

Yn gynharach yn y flwyddyn, codwyd bron i £1,000 drwy ganu 50 o emynau yn y capel gyda'r elw yn mynd at ymchwil leukemia.

CAERDYDD: Mae'r gynulleidfâ yn cwrdd yn Nhy Cwrdd y Crynwyr yn Heol Siarl yng nghanol y dref a chroeso i bawb ymuno yn y gwasanaethau. Trefnir gwasanaeth arbennig i blant yng nghapel Penrhwi yn Sain Ffagan ar Ragfyr 13eg eleni. Mae peth gofid ynglŷn â pharhad y gwasanaeth Cymraeg ac apelir ar Undodiaid o Geredigion sydd yn byw yng Nghaerdydd i gefnogi os y gallant. Maent yn cyfarfod am 3.15 ar yr ail Sul o bob mis.

HEN DY CWRDD, TRECYNON: Daeth nifer o swyddogion Cyngor Rhondda Cynon Tâf at ei gilydd i ddadorchuddio plac yn dynodi pwysigrwydd hanesyddol y capel ers ei sefydlu ym 1751. Yma y canwyd geiriau ein Hanthem Genedlaethol wedi i un o'r aelodau, Thomas Llywelyn, ennill ar gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Llangollen a dod â'r geiriau a'r alaw i sylw'r cyhoedd. Cofir am gyfraniad eraill fel y Carw Coch, arloeswr y byd Eisteddfodol; Caradog, arweinydd y Côr Mawr; Teulu Llewyllyn a oedd yn berchnogion gweithiau glo'r ardal; E.R. Dennis a fu'n arloesi gyda'r ddrama Gymraeg a llawer mwy. Mae lle anrhydeddus iawn i'r Hen Dy Cwrdd yn hanes Aberdar a'r cylch.

LLANMADOG: Daeth rhyw 50 o bobl ynghyd i Rali flynyddol Cymdeithas y De Ddwyrain yn Llanmadog ym Mro Gŵyr. Nôl yn 1947 y rhoddwyd y fferm 70 erw gan Undodwr o Abertawe ar gyfer y gymuned ac yn arbennig plant a phobl ifanc Abertawe ar ôl diflannu yr Ail Ryfel Byd. Am flynyddoedd, bu Undodiaid ifanc yn treulio wythnos o wyliau yn ystod yr haf a daeth rhai ohonynt ynghyd i'r achlysur hwn pan welwyd fod yr hen adeiladau wedi diflannu ac adeilad newydd modern wedi ei adeiladu yn ei le gyda lle i ryw 100 i gysgu ynddo a phob cyfleuster posib. Cafwyd diwrnod wrth ein bodd a'r tywydd yn garedig wrthym.

'Nôl i Lanmadog a rhyfeddu

O'r 1960au i 1990 aeth degau o Undodiaid ifanc ar wyliau i'r gwersyll ar Benrhyn Gŵyr. Yn ddiweddar cafodd Ann Jones o Lanwnnen gyfle i ymweld â Llanmadog ar ei newydd wedd...



Mair Davies a Lis Dyson-Jones

Roedd Mr a Mrs Burr o Gapel Undodaidd Abertawe yn berchen ar fferm Llanmadog sydd â golygfeydd anhygoel dros Fae Abertawe, ac ar ôl y rhyfel, pan oedd y ddinas wedi ei dinistrio'n llwyr gan fomiau, fe benderfynnodd y ddau roi'r fferm 70 erw mewn ymddiriedolaeth er mwyn cael gwersyll i blant a phobol ifanc o bob enwad ac eglwys gan fod plant bryd hynny'n dioddef yn ofnadwy.

Roedd Mr Burr yn Brif Weithredwr y Ddinas pan agorwyd y gwersyll ym 1947. Bu'r Parch. Eric Jones yn weithgar tu hwnt yno o 1965 hyd 1990 pan ddefnyddiodd Undodiaid y lle ddiwethaf, ond bellach nid oes Undodwr ar y pwyllgor.

Fodd bynnag, ar y 4ydd o Orffennaf eleni, cynhaliwyd Rali flynyddol Undodiad De-Ddwyrain Cymru yno a gwahoddwyd Mair

Davies, Gwardafolog, Mary, fy chwaer, a minnau i ymuno â nhw yn y gweithgareddau gan fod Mair a'n mam yn arfer mynd yno i goginio ar wythnos yr Undodiaid bob blwyddyn ym mis Awst.

Chefais i ddim cyfle i fynd i Lanmadog gan mai fi oedd adre yng nghegin Cwmglyfeile, ond roedd Mary yn mynd gyda mam bob blwyddyn. Roedd Mair a Mary wrth eu bodd yn cael cwrdd a hen ffrindiau a oedd hefyd yn arfer helpu gyda'r plant.

Ar ôl cyrraedd a chael te a theisen, i mewn â ni i Gapel Madog i gael croeso gwresog gan Lywydd Cymdeithas y De-Ddwyrain, Sarah Boyce, yna gwasanaeth a chyfle i hel atgofion gan Parch Eric Jones, Julianne Morgan a Sheila Cousins.

Roedd yr atgofion yn llifo gyda Mair a Mary yn cofio pob dim ac yn sylwi gymaint oedd wedi newid – cegin foethus, ac 'en-suite' rhwng pob 5 person yn hytrach na'r ty bach a arferai fod ar ben draw'r ardd! Roedd y golygfeydd er hyn yr un mor odidog ag erioed.

Cyflwynodd Lis Dyson-Jones anrheg o flodau i Mair am wneud yr ymdrech i ddod nôl ar gyfer y diwnod a hithau dros ei 80 ac i goroni'r cyfan cawsom wledd cyn troi am adre.

Gobeithio, ryw ddydd, y caiff plant ac ieuenctid Undodaidd y cyfle unwaith eto i ddefnyddio'r gwersyll. Mae'n drueni mawr ein bod yn colli cysylltiad â'r lle.

Diolch am ddiwrnod i'w gofio.

Ann Jones

Brodor o Lyn Ebwy yn Llywydd Cenedlaethol Urdd y Benywod



Yng Nglyn Ebwy, cartref yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, y ganed Dilys Evans yn ystod yr 1940au. Yno yr aeth i'r ysgol ac astudiodd ieithoedd ar gyfer ei arholiadau Lefel A. Aeth i Brifysgol Caerdydd a graddio mewn Almaeneg a Ffrangeg cyn derbyn swydd Pennaeth Almaeneg yn Ysgol Ramadeg y Merched yn Aberdar ym 1969. Drwy gydol ei bywyd proffesiynol, bu'n athrawes yn yr ysgol honno, gan ddysgu Ffrangeg hefyd.

Wedi ymdeol, fe ddysgodd Gymraeg a sefyll arholiadau yn yr iaith.

Er ei bod wedi ei chodi yn y drefn Bresbyteriaid, a'i thad yn aelod o'r Eglwys Anglicanaidd, cysylltodd gydag Eglwys Highland Place rywbryd yn ystod y blynyddoedd hyn a bu'n weithgar iawn gyda gwaith Urdd y Benywod yn y capel gan

wasanaethu fel Llywydd am rai blynyddoedd.

Dechreuodd ar ei chyfnod fel Llywydd Cenedlaethol ym Mis Ebrill eleni ac eisioes mae wedi bod yn ymweld â nifer o ganolfannau gan gynnwys yr Alban, Manceinion a Sheffield.

Mae'n siaradwraig boblogaidd gyda mesur helaeth o hiwmor yn gymysg a'i neges mwy difrifol ar gyfer aelodau Urdd y Benywod. Dymunwn yn dda iddi yn ystod blynyddoedd ei llywyddiaeth - hi yw'r seithfed o Gymru i ddal y swydd yn ystod can mlynedd bodolaeth Urdd y Benywod.

Parchedig J.Eric Jones

DIOLCH I NODDWR Y RHIFYN YMA

Bara Gwalia, Llanybydder
Bara heb ei debyg
01570 480465

Eleri Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Cartrefle, Stryd y Bont
Castellnewydd Emlyn
01239 710942

Cwmni Tristar
Esgairgoch, Ffarmers
Gwerthwyr Iorïau a cheirt ceffylau
01570 422250

Siop y Smotyn Du
Y Stryd Fawr, Llanbed
Cardiau, Ilyfrau, CD's a mwy

Cenfil Reeves
Ymgymerwr Angladdau
Garreg Wen
Talgarreg
01545 590254

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
19, Stryd y Coleg, Llanbed
01570 423300

Teifi Forge Cyf, Cwmann
Peiriannwyr Amaethyddol
Weldio symudol o bob math
01570 422240

Lyn Rees
Peintwr ac Addurnwr
New Inn, Pencader
01559 384538

Ifor Thomas A'i Feibion
Blaendyffryn
Pont, Creuddyn, Llanbed
Datgymalwyr moduron
01570 470530

D. Llywelyn Lloyd
Meini Coffa, Aberaeron
01545 570613

Evans Bros
Arwerthwyr
Llanybydder
01570 480444

Gwilym C. Price, Ei Fab A'i
Ferched
Tŷ Dresden
Stryd y Coleg
Llanbed
01570 422673/423170/422228

J.H. Williams A'i Feibion
Llanbed a Chaerfyrddin
Arbenigwyr llestri a nwyddau
bwyd
01570 422488

Y Pantri
Stryd Fawr
Llanbed
Am fywd da a maethlon
01570 422304